# PROFFIL RÔL MYFYRIWR ADOLYGWR QAA

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r proffil rôl safonol ar gyfer unigolion sy'n cael eu recriwtio i gyflawni rôl myfyriwr adolygwr ar gyfer adolygiadau, asesiadau a gwasanaethau QAA.

Mae'r proffil rôl yn crynhoi'r prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau. Mae'r adran 'Manyleb Rôl' yn amlinellu'r nodweddion sydd eu hangen gan gynnwys profiad; cymwysterau; gwybodaeth, sgiliau a galluoedd; ymddygiad a gwybodaeth am leoliad.

## CYD-DESTUN SEFYDLIADOL

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) yn elusen annibynnol sy'n gweithio er budd myfyrwyr, yn ogystal ag addysg bellach ac uwch, fel un o arbenigwyr y byd ym maes sicrhau ansawdd.

Mae darparwyr addysg bellach ac uwch a chyllidwyr/rheoleiddwyr yn ymddiried ynom i gynnal a gwella ansawdd a safonau. Rydym yn sicrhau bod myfyrwyr yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar ein gwaith. Mae ein timau adolygu'n cynnwys proffesiynwyr o golegau a phrifysgolion sydd â phrofiad sylweddol o reoli a chyflwyno darpariaeth addysg bellach a/neu uwch, ynghyd â myfyrwyr adolygwyr sy'n rhoi mewnwelediad gwerthfawr i'n gweithgaredd adolygu o safbwynt myfyrwyr. Mae QAA yn cynnal adolygiadau mewn perthynas â fframweithiau deddfwriaethol a rheoleiddiol, ac at ddiben darparu gwasanaethau i ddarparwyr.

## CRYNODEB O'R RÔL

Pwrpas y rôl yw cynnal adolygiadau o ddarparwyr addysg fel rhan o dîm adolygu a dod i gasgliadau ynghylch safonau academaidd ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae adolygwyr yn galluogi cynnal adolygiadau'n effeithiol trwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar egwyddorion; casglu, darllen yn feirniadol a gwerthuso tystiolaeth gan ddarparydd; dilyn trywyddion ymholi; ymgysylltu â'r darparydd; a dod i gasgliadau clir, yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae adolygwyr yn hanfodol o ran galluogi QAA i gyflawni sicrwydd ansawdd allanol a arweinir gan adolygiadau gan gymheiriaid.

Gellir defnyddio adolygwyr ar gyfer unrhyw un o'r dulliau adolygu neu'r gwasanaethau a weithredir gan QAA, cyn belled â bod ganddynt brofiad sy'n briodol ar gyfer y dull. Darperir hyfforddiant a chefnogaeth i adolygwyr cyn y bydd gofyn iddynt gyflawni adolygiad.

## PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

- Cynnal adolygiadau annibynnol o ansawdd a safonau academaidd darparwyr addysg drydyddol yn unol â'r fethodoleg benodedig;
- Dynodi ac asesu risgiau i safonau academaidd ac ansawdd profiad myfyrwyr;
- Defnyddio gwybodaeth arbenigol (a lle bo hynny'n briodol, pwnc-benodol);
- Derbyn, dadansoddi a gwerthuso ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys data meintiol ac ansoddol;
- Darparu mewnbwn ar gyfer cyfarfodydd adolygwyr, ystyried tystiolaeth a chytuno ar ddeilliannau ac argymhellion ynghylch a yw darparydd yn bodloni'r meini prawf

perthnasol ar gyfer asesu yn unol â'r fethodoleg benodedig;
- Gweithio'n agos gyda Swyddogion QAA i ddrafftio adroddiadau adolygu;
- Cadw at set o weithdrefnau y cytunwyd arnynt er mwyn sicrhau cysondeb wrth gynnal adolygiad, a hynny o fewn amserlen a therfynau amser penodol.
- Os penodir unigolyn i apêl, cadw at y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer yr apêl, o fewn amserlen a therfynau amser penodol.

**MANYLEB Y RÔL**
**Profiad a chymwysterau: MYFYRIWR ADOLYGWR**

| Nodweddion | Meini prawf |
|---|---|
| **Profiad** | **Hanfodol**<br>Profiad cyfredol neu ddiweddar (h.y. o fewn tair blynedd)[1]<br>• fel myfyriwr, neu fel Swyddog Sabothol, gyda darparydd addysg drydyddol, sy'n cyfateb i o leiaf blwyddyn o addysg lawn-amser3.<br>• cynrychioli buddiannau myfyrwyr wrth reoli safonau academaidd a/neu ansawdd (er enghraifft, fel cynrychiolydd myfyrwyr).<br><br>**Dymunol**<br>Profiad o un neu fwy o'r canlynol:<br>• cynnal archwiliadau, adolygiadau, asesiadau, achrediadau, ymchwiliadau neu weithgareddau tebyg o fewn sefydliad addysg drydyddol a / neu gydag asiantaethau sicrhau ansawdd / arolygiaethau /cyrff archwilio eraill yn y DU neu'n rhyngwladol<br>• ymgysylltu â chyrff sector (er enghraifft, cyrff cynghori, cymdeithasau dysgedig, cymrodoriaethau, aelodaeth o bwyllgorau/panelau cenedlaethol, cyrff achredu), yn ddelfrydol o ran gweithgareddau ymgysylltu â myfyrwyr.<br>• gweithio mewn sefydliad addysg drydyddol neu sefydliad cynrychioli myfyrwyr, yn ddelfrydol mewn rôl ymgysylltu â myfyrwyr.<br>• cymryd rhan mewn mentrau a/neu brosiectau sy'n ymwneud ag ymgysylltiad myfyrwyr.<br>• cadeirio pwyllgorau neu gyfarfodydd ffurfiol eraill.<br>• cymryd rhan mewn sicrhau ansawdd ar lefel sefydliadol.<br>• cymryd rhan mewn addysg drydyddol y tu allan i'r DU neu wybodaeth am systemau addysg rhyngwladol, gan gynnwys addysg drawswladol. |
| **Cymwysterau a hyfforddiant** | Meddu ar gymhwyster addysg uwch, addysg bellach neu addysg drydyddol, neu'n gweithio tuag at gymhwyster o'r fath. |

[1] Ar gyfer y dull Adolygiad Ansawdd Porth Cymru (GQRW), rhaid i'r profiad hwn fod o fewn dwy flynedd yn hytrach na thair

**Nodweddion eraill: Pob adolygydd**

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth, sgiliau a medrau** | **Hanfodol**<br>• ymwybyddiaeth o amrywioldeb y sector addysg drydyddol ac o'r trefniadau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd.<br>• diddordeb amlwg mewn sicrhau bod buddiannau myfyrwyr yn cael eu diogelu.<br>• sgiliau dadansoddi cryf gyda'r gallu i gymhathu, dadansoddi'n feirniadol, cyfosod a gwerthuso swmp sylweddol o ddata meintiol ac ansoddol mewn modd sy'n sensitif i gyd-destun.<br>• gallu technegol i weithio'n effeithiol gyda systemau cyfathrebu electronig a/neu ar y we. |
| | • y gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm bach wyneb-yn-wyneb a lle gellir gwneud gwaith o bell, i ffwrdd oddi wrth aelodau eraill y tîm.<br>• sgiliau gwrando a chyfathrebu llafar rhagorol wrth arwain a chymryd rhan mewn cyfarfodydd.<br>• y gallu i gynllunio gwaith a chadw at brotocolau, gweithdrefnau a therfynau amser y cytunwyd arnynt.<br>• y gallu i ysgrifennu testun clir, cryno a chywir i arddull ofynnol.<br>• y gallu i adnabod gwerthoedd a rhagdybiaethau personol ac arddel mewnwelediad i'r ffyrdd y gall y rhain effeithio ar feddwl a barn.<br>• y gallu i arwain trafodaethau am ddulliau strategol a gweithredol o reoli ansawdd a safonau academaidd.<br>• ymwybyddiaeth ddiwylliannol a'r gallu i ddeall ystod o safbwyntiau, adnabod gwerthoedd a thueddiadau personol ac arddel mewnwelediad i sut mae'r rhain yn effeithio ar feddwl a barn.<br>• hygrededd personol a phroffesiynol gyda staff, gan gynnwys uwch reolwyr, penaethiaid sefydliadau, a staff sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu ar hyn o bryd.<br><br>**Dymunol**<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o safonau rhyngwladol/cenedlaethol allweddol a fframweithiau ansawdd sy’n berthnasol i’r dull (e.e. Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG), Fframwaith Credydau a Chymwysterau’r Alban)<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cyd-destun polisi ar gyfer addysg bellach ac uwch.<br>• y gallu i ddarllen, a siarad Cymraeg (ar gyfer adolygiadau a gynhelir yng Nghymru). |
| **Ymddygiad** | **Hanfodol**<br>• arddel y safonau uchaf o ran ymddygiad personol, gonestrwydd ac uniondeb sy'n ysbrydoli ymddiriedaeth a hyder<br>• sicrhau bod QAA fel sefydliad yn cael ei gynrychioli mewn modd cadarnhaol, cymwynasgar a phroffesiynol.<br>• cynnal cyfrinachedd, gan gynnwys materion sensitif.<br>• parodrwydd i weithio, gydag ymagwedd hyblyg a phositif.<br>• ymrwymiad i fyfyrio beirniadol a gwelliant parhaus.<br>• lefel uchel o gymhelliant, ynghyd â’r gallu i weithio dan bwysau |
| **Lleoliad** | Hyblyg gyda theithio cenedlaethol a/neu ryngwladol. |